

Cylchlythyr | Circular

Prentisiaethau gradd yng Nghymru: Cynigion ar gyfer Cyllid yn 2023/24 a 2024/25

Dyddiad: 20 Mawrth 2023
Cyfeirnod: W23/04HE
At: Benaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru
Penaethiaid colegau addysg bellach a gyllidir yn uniongyrchol yng
Nghymru
Ymatebion erbyn: 17 Ebrill 2023
Cyswllt: Enw: Angela West
Ffôn: 029 2085 9738
E-bost: angela.west@hefcw.ac.uk

Mae'r cylchlythyr hwn yn gwahodd sefydliadau a gyllidir gan CCAUC i gyflwyno cynigion ar gyfer cyllido prentisiaethau gradd ym mlynnyddoedd academiaidd 2023/24 a 2024/25. Mae'r alwad am gynigion yn cwmpasu meysydd blaenoriaeth digidol ar Lefel 6 y Fframwaith Prentisiaethau Gradd Digidol, a pheirianeg a gweithgynhyrchu uwch ar Lefel 6 y Fframwaith Prentisiaethau Gradd Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch.

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat hygyrch arall, anfonwch e-bost i info@hefcw.ac.uk.



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Cyflwyniad

1. Mae'r cylchlythyr hwn yn gwahodd sefydliadau a gyllidir gan CCAUC i gyflwyno cynigion ar gyfer cyllido prentisiaethau gradd ym mlynnyddoedd academaidd **2023/24 a 2024/25**.
2. Mae'r alwad am gynigion yn berthnasol i brentisiaid **newydd** a phrentisiaid **sy'n parhau** ar y [Brentisiaeth Radd Ddigidol](#) a gyhoeddwyd ar 29 Ebrill 2018, a'r [Brentisiaeth Radd Gweithgynhyrchu Uwch](#) a gyhoeddwyd ar 1 Awst 2019, a gyllidir gan Lywodraeth Cymru trwy CCAUC.
3. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau cyllidebau dangosol am y ddwy flynedd nesaf, gyda chyllidebau i'w cyhoeddi'n derfynol yn Llythyr Cylch Gwaith CCAUC 2023-24 a maes o law ar gyfer y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY) newydd. Mae cyfanswm y cyllidebau dangosol ar gyfer prentisiaethau gradd yn darparu ar gyfer gweithgarwch ar lefelau tebyg i'r rhai ym mlwyddyn academaidd 2022/23. Bydd cynigion ar gyfer cyllid ym mlynnyddoedd academaidd 2023/24 a 2024/25 yn cael eu cymeradwyo mewn egwyddor, yn amodol ar gadarnhad terfynol gan Lywodraeth Cymru ynghylch y gyllideb ar y cyfan yn 2023-24 ac yna yn 2024-25, ac yn amodol ar y broses o bontio i'r CADY.
4. Felly mae'r templed i gyflwyno cynnig yn cwmpasu gweithgarwch ar gyfer prentisiaethau gradd newydd a phrentisiaethau gradd sy'n parhau ym mlynnyddoedd academaidd 2023/24 a 2024/25 ar **fframweithiau prentisiaethau gradd presennol** Digidol a Pheirianneg a Gweithgynhyrchu Uwch. Fodd bynnag, bydd yn ofynnol i niferoedd y prentisiaethau gradd newydd a'r prentisiaethau gradd sy'n parhau gael eu cyflwyno ar wahân ar gyfer blynnyddoedd academaidd 2023/24 a 2024/25, yn unol â'r broses gyllideb flynyddol. Flwyddyn nesaf, yn lle cynnig llawn, byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gadarnhau nifer rhagamcanol y prentisiaethau gradd a'r prentisiaethau gradd sy'n parhau ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25 ar fframweithiau prentisiaethau gradd presennol.
5. Bydd hi'n ofynnol i sefydliadau a gyllidir gan CCAUC gyflwyno cynnig llawn ar gyfer cyllido niferoedd recriwtio newydd rhagamcanol yn 2024/25 ar unrhyw **fframweithiau prentisiaethau gradd newydd** pe bai'r rhain yn cael eu cyflwyno.

Cefndir

6. Ym mis Chwefror 2017, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ei chynllun polisi Sgiliau Prentisiaeth, [Cysoni'r Model Prentisiaethau ag Anghenion Economi Cymru](#), a oedd yn cynnwys cyflwyno prentisiaethau gradd. Dechreuodd y carfannau cyntaf o brentisiaethau gradd yn 2018/19 yn erbyn y Fframwaith Digidol, gyda'r cofrestriadau prentisiaethau gradd cyntaf yn erbyn y Fframwaith Peirianneg a Gweithgynhyrchu Uwch yn dechrau yn 2019/20. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i greu 125,000 o brentisiaethau pob oed yn nhymor y Senedd bresennol¹. Ar 8 Mawrth 2022 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei [Chynllun ar](#)

¹ [Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, 7 Rhagfyr 2021](#)

[gyfer Cyflogadwyedd a Sgiliau](#), sy'n blaenoriaethu prentisiaethau fel maes ar gyfer gweithredu.

7. Rhaglen dysgu a hyfforddi integredig sy'n arwain at brentisiaeth a chymhwyster ar lefel gradd gan ddangos yr wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau perthnasol y mae cyflogwyr yng Nghymru'n eu cydnabod ac yn eu gwerthfawrogi yw prentisiaethau gradd. Felly mae prentisiaethau gradd yng Nghymru'n cynnwys cymhwyster gradd baglor integredig fel rhan o'r gofyniad mewn fframwaith prentisiaethau.
8. Ers 1 Mai 2020, Llywodraeth Cymru yw'r [awdurdod cyhoeddi prentisiaethau](#) ar gyfer fframweithiau/llwybrau yng Nghymru. Arferai'r rôl hon gael ei chyflawni gan Gynghorau Sgiliau Sector a chyrrff sector cyn hynny. Rhaid i fframweithiau ateb gofynion statudol a nodir gan [Fanyleb Safonau Prentisiaethau Cymru \(SASW\)](#), a dilyn argymhellion a blaenoriaethau Bwrdd Cynghori ar Brentisiaethau Cymru. Mae cymwysterau'n elfennau allweddol o [fframweithiau prentisiaethau](#) a rhaid i fframwaith gynnwys cymhwyster galluedd galwedigaethol, cymhwyster gwybodaeth dechnegol, cymwysterau neu ofynion eraill fel a nodir gan yr alwedigaeth, a [Chymhwyster Sgiliau Hanfodol Cymru \(ESW\)](#) lle y bo'n berthnasol.
9. Nid yw cymhwyster Sgiliau Hanfodol Cymru'n un o ofynion y rhaglen prentisiaethau gradd, ond mae CCAUC yn disgwyl sicrwydd bod dysgu prentisiaid yn cael ei gefnogi ac mae'n ofynnol i sefydliadau a gyllidir gan CCAUC gadarnhau bod y gofyniad hwn yn cael ei ateb fel rhan o'r cynnig. Mae hyn yn golygu y bydd cymhwyster yn cael ei ddyfarnu i brentisiaid gan eu darparwr addysg uwch ac na fyddant yn cael tystysgrif prentisiaeth. Mae pob cymhwyster yn rhan o [Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru \(CQFW\)](#), a rhaid iddynt ddilyn [Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol \(NOS\)](#).
10. Fe gomisiynodd Llywodraeth Cymru werthusiad annibynnol o'r rhaglen prentisiaethau gradd, a ddatblygwyd ar y cyd gyda CCAUC, i ganolbwyntio ar ei heffeithiolrwydd, ei heffeithlonrwydd a'i heffaith ar gyfer cyflogwyr, prentisiaid a darparwyr Addysg Uwch. Mae'n ofynnol i sefydliadau ystyried y gwerthusiad, yr [Adroddiad Cwmpasu](#) cychwynnol, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2021, a'r [adroddiad terfynol](#), a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2023.

Prentisiaethau Gradd 2023/24 a 2024/25

11. Mae'r cyllidebau dangosol i gyllido prentisiaethau gradd yn darparu ar gyfer gweithgarwch ar lefelau tebyg i'r rhai ym mlwyddyn academiaidd 2022/23. Mae'r gyllideb wedi'i bwriadu ar gyfer prentisiaethau sy'n parhau o flynyddoedd academiaidd blaenorol a phrentisiaethau newydd sy'n dechrau yn y priod flynyddoedd academiaidd. Mae'r gyllideb derfynol yn amodol ar gadarnhad ynghylch y gyllideb ar y cyfan gan Lywodraeth Cymru, a ddisgwylir yn Llythyr Cylch Gwaith CCAUC 2023-24 a maes o law ar gyfer y CADY. Bydd cynigion ar gyfer cyllid ym mlynnyddoedd academiaidd 2023/24 a 2024/25 yn cael eu cymeradwyo mewn egwyddor, yn amodol ar gadarnhad terfynol gan Lywodraeth Cymru ynghylch y gyllideb ar y cyfan yn 2023-24 ac yna yn 2024-25, ac yn amodol ar y broses o bontio i'r CADY.

12. Fe wnaeth Cylchlythyr [W18/29HE](#) Degree Apprenticeships 2019/20: Consultation on the Funding Methodology and Request for Expressions of Interest, wahodd sefydliadau a gyllidir gan CCAUC i fynegi eu barn ynglŷn â dyrannu cyllid pe bai'r galw'n fwy na'r cyllid a oedd ar gael. Ceir crynodeb o bwyntiau allweddol a gafwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad yn ein cylchlythyr [W19/03HE](#). Bydd y blaenoriaethau a'r fethodoleg ar gyfer dyrannu cyllid a nodwyd yng nghylchlythyr W19/03HE yn berthnasol i'r cynigion ar gyfer 2023/24 a 2024/25 hefyd, pe bai'r galw'n uwch na'r cyllid sydd ar gael ar gyfer y blynyddoedd academaidd hyn.

Blaenoriaethau ar gyfer prentisiaethau gradd yn 2023/24 a 2024/25

13. Y blaenoriaethau yw:
- Bod sefydliadau a gyllidir gan CCAUC yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol a dogfennau rheoleiddiol perthnasol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru;
 - Bod cydweithio strategol yn digwydd ar draws sectorau addysg yng Nghymru i gryfhau llwybrau dilyniant sy'n diwallu anghenion cyflogwyr ac unigolion yn y ffordd orau, ac yn osgoi cystadleuaeth ddiwerth. Rhaid i sefydliadau a gyllidir gan CCAUC gynnwys tystiolaeth o hyn o fewn y cynnig a gyflwynir ganddynt;
 - Bod unigolion o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn AU, prentisiaethau a'r galwedigaethau y mae prentisiaethau gradd wedi'u hanelu atynt yn cael eu cynorthwyo i wneud prentisiaethau gradd;
 - Bod prentisiaethau gradd yn cyfrannu at strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, i greu miliwn o siaradwyr erbyn 2050²;
 - Bod prentisiaethau gradd yn cydymffurfio â [Datganiad o Nodweddion ar gyfer Addysg Uwch mewn Prentisiaethau](#) yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA), ac yn parhau i fynd i'r afael ag argymhellion o'r [Adolygiad Datblygiadol o Brentisiaethau Gradd yng Nghymru](#).

Prentisiaethau Gradd Cynhwysol

14. Mae Prentisiaethau Gradd yn galluogi CCAUC i fwrw ymlaen ag amcanion polisi a ddisgrifir yng nghynllun polisi Sgiliau Prentisiaethau Llywodraeth Cymru³. Yn y cynllun fe ymrwymwyd i fynd i'r afael â'r prinderau sgiliau yn y dyfodol ar gyfer yr economi yng Nghymru, trwy wella mynediad, cydraddoldeb a chyfle cyfartal, trwy ddatblygu llwybrau amgen i ddarpariaeth ar lefel gradd.
15. Mae [Prentisiaethau Cynhwysol, Cynllun Gweithredu ar Anabledd ar gyfer Prentisiaethau](#) 2018-19 gan Lywodraeth Cymru yn cynnig arweiniad ar ddatblygu dull cynhwysol o ymdrin ag anabledd. Dylai'r rhai sy'n dymuno ymgeisio i gynnig prentisiaethau gradd sicrhau eu bod yn ystyried y cynllun gweithredu hwn yn rhaglen prentisiaethau gradd eu sefydliad.

² [Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr](#)

³ [Cynllun polisi sgiliau prentisiaethau \(llyw.cymru\)](#)

16. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Becyn Cymorth i Gyflogwyr hefyd, ['Cymru Sy'n Fwy Cyfartal: Canllaw ymarferol i gyflogwyr ynglŷn â chyflogi pobl anabl'](#)⁴. Mae'r pecyn cymorth yn rhoi cyngor ymarferol ynghylch sut i ddenu, recriwtio, datblygu a chadw cyflogeion anabl, yn ogystal â pha gymorth ac adnoddau sydd ar gael i helpu cyflogwyr i greu gweithlu sy'n cynrychioli pawb ac yn agored iddynt. Dylai sefydliadau a gyllidir gan CCAUC sicrhau bod hwn yn cael ei ddosbarthu i gyflogwyr sydd â diddordeb mewn recriwtio prentis gradd.
17. Ym mis Chwefror 2021, rhoddodd CCAUC gomisiwn i Advance HE i gynnal gweithdy ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Roedd hwn wedi'i fwriadu i roi cymorth i sefydliadau a gyllidir gan CCAUC ddatblygu eu gwybodaeth am hawliau a chyfrifoldebau cyfreithiol a sefydliadol yn y maes hwn, a'u cynorthwyo i gwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer y rhaglen prentisiaethau gradd yn eu sefydliad. Rhaid i Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer y rhaglen prentisiaethau gradd gael eu cyflwyno gyda chynigion sefydliadau a gyllidir gan CCAUC ar gyfer cyllid, a byddant yn rhan o'r meini prawf ansawdd ar gyfer asesu.
18. Mae CCAUC yn cydweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i roi cymorth i sefydliadau a gyllidir gan CCAUC ddatblygu ymagwedd gadarn at ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog yn eu rhaglenni prentisiaethau gradd. Ym mis Mawrth 2021, rhannodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ei Gynllun Gweithredu Cyfrwng Cymraeg 2050⁵ gydag arweinwyr prentisiaethau gradd SAUau. Mae'r cynllun, a ddatblygwyd gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol mewn cydweithrediad gyda Llywodraeth Cymru, yn darparu dull strategol o fodelu datblygiad sgiliau ar gyfer darparwyr prentisiaethau, sydd wedi'i fwriadu i gynyddu cyfraddau dilyniant, a chefnogi datblygiad sgiliau Cymraeg yn gymdeithasol ac yn y gweithle. I sicrhau ei effeithiolrwydd, dylai sefydliadau fynd i'r afael â'r Cynllun Gweithredu Cyfrwng Cymraeg fel cyfanwaith, yn eu hymagwedd at ddarpariaeth Gymraeg:
- Profiad Dysgwyr
 - Capasiti Staffio
 - Darpariaeth
 - Adnoddau
 - Asesu a Chymwysterau
 - Ymgysylltu â Chyflogwyr
19. Mae'n ofynnol i sefydliadau a gyllidir gan CCAUC rannu dogfennau cyfarwyddyd y cyfeirir atynt yn y cylchlythyr hwn a disgwyliadau CCAUC ar gyfer prentisiaethau gradd gyda'u partneriaid cyflawni.

Galwad am gynigion

20. Mae'r alwad am gynigion yn darparu cyfleoedd ar gyfer cyllido'r gofynion ar un neu fwy o'r llwybrau a nodir ar y [Brentisiaeth Radd Ddigidol](#), Lefel 6 a gyhoeddwyd ar

⁴ [Porth Sgiliau Busnes Cymru: Cyflogaeth Pobl Anabl](#)

⁵ [Tuag at Cymraeg 2050](#)

29 Ebrill 2018, a'r [Brentisiaeth Radd Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch](#), Lefel 6 a gyhoeddwyd ar 1 Awst 2019.

21. Rhaid i gynigion ar gyfer cyllid roi disgrifiad clir o wersi a ddysgwyd o reoli a chyflawni'r rhaglen prentisiaethau gradd ers 2018, a sut y cymerir hyn i ystyriaeth wrth gyflawni prentisiaethau gradd mewn sefydliadau yn y dyfodol.
22. Mae disgwyl i sefydliadau a gyllidir gan CCAUC ddisgrifio'u hymagwedd at gydweithio gyda phartneriaid cyflawni, fel bod darpariaeth ledled Cymru'n cael ei datblygu ar sail strategol. Y rheswm dros hyn yw er mwyn cynyddu i'r eithaf natur drosglwyddadwy deilliannau prentisiaethau a chydabyddiaeth iddynt ar gyfer prentisiaid a diwallu anghenion cyflogwyr, a hwyluso llwybrau dilyniant.
23. Gellir cynnwys partneriaid cyflawni Addysg Uwch a/neu gyflogwyr mewn cynigion fel partner gyda mwy nag un Sefydliad Addysg Uwch (SAU) ar gyfer yr un ddarpariaeth. Bydd angen nodi'n glir mewn cynigion pa un a yw pob partner wedi ymgeisio am yr un ddarpariaeth mewn mwy nag un cynnig ai peidio i osgoi cyfrif ddwywaith wrth ddyrannu niferoedd y prentisiaethau. Lle mae partner cyflawni AU neu gyflogwr yn rhan o fwy nag un cynnig ar gyfer yr un ddarpariaeth, CCAUC fydd yn pennu'r cynnig y bydd y niferoedd yn cael eu dyrannu iddo. Mae hyn yn golygu, lle mae partner cyflawni AU neu gyflogwr yn partneru gyda mwy nag un sefydliad rheoleiddiedig ar gyfer yr un ddarpariaeth, y gall y niferoedd a ddyrennir i'r sefydliad a gyllidir gan CCAUC fod yn wahanol i'r niferoedd yn y cais.
24. Mae disgwyl i ymgeiswyr gynnig am gyllid ar gyfer darpariaeth a fydd yn cael ei chyflawni'n rhanbarthol gyda phartneriaid a chyflogwyr. Bydd angen i ymgeiswyr sy'n cyflwyno cynigion i weithio'r tu allan i'w rhanbarth gyfleu achos clir iawn i ategu hyn. Bydd angen i'r achos hwnnw gael ei gefnogi gan y cyflogwr, ynghyd â thystiolaeth nad oedd y darparwyr yn y rhanbarth yn gallu diwallu anghenion cyflogwyr a phrentisiaid. Bydd unrhyw gymeradwyaeth ar sail eithriadol.
25. Gall sefydliadau a gyllidir gan CCAUC recriwtio prentisiaid yn fewnol o'u staff eu hunain. Rydym yn disgwyl mai lleiafrif o'r ceisiadau fydd hyn, a rhaid i hynny gael ei ategu gan achos eglur ar gyfer pob unigolyn, gan ddangos bod y gweithgarwch recriwtio'n seiliedig ar angen go iawn.
26. Gwahoddir sefydliadau a gyllidir gan CCAUC i gyflwyno cynigion ar gyfer cyllido prentisiaethau gradd erbyn 17 Ebrill 2023. Bydd angen i'r holl gynigion a gyflwynir gan sefydliadau a gyllidir gan CCAUC gael eu hategu â thystiolaeth i ddynodi sut y bydd y darparwr yn cyflawni yn erbyn set o feini prawf. Caiff y rhain eu nodi yn **Atodiad A**.
27. Rhaid i gynigion ar gyfer niferoedd prentisiaid **newydd** fod yn seiliedig ar niferoedd recriwtio rhagamcanol realistig ym mlynnyddoedd academaidd 2023/24 a 2024/25, i sicrhau bod y gyllideb sydd ar gael yn cael ei defnyddio'n llawn. Dylai cyfanswm nifer y prentisiaethau newydd gael ei gofnodi gan ddefnyddio **Atodiad B**. Dylai nifer rhagamcanol y prentisiaethau sy'n **parhau** o flynyddoedd blaenorol i flynyddoedd academaidd 2023/24 a 2024/25 gael ei gofnodi yn **Atodiad C**. Rhaid i sefydliadau a gyllidir gan CCAUC fod mewn sefyllfa i gyflawni, pe bai cynigion yn cael eu derbyn.

28. Bydd hi'n ofynnol i sefydliadau gadarnhau niferoedd recriwtio rhagamcanol ar gyfer prentisiaid newydd a phrentisiaid sy'n parhau ar fframweithiau presennol ym mlwyddyn academaidd 2024/25, mewn ail alwad am gynigion yn ddiweddarach. Bydd hi'n ofynnol i sefydliadau a gyllidir gan CCAUC gyflwyno cynnig llawn ar gyfer cyllido niferoedd recriwtio newydd rhagamcanol yn 2024/25 ar unrhyw fframweithiau prentisiaethau gradd newydd.
29. Bydd cyflwyno cynnig yn cael ei gymryd fel cytundeb y **bydd y ddarpariaeth yn ateb y gofynion canlynol** pe bai niferoedd yn cael eu dyrannu:
- Mae cymwysterau wedi cael eu derbyn yn llwyddiannus ar y fframwaith digidol a/neu'r fframwaith peirianeg a gweithgynhyrchu uwch;
 - Mae'r holl brentisiaid yn cael eu cyflogi mewn rôl swydd sy'n eu galluogi i ateb gofynion y fframwaith a nodwyd ar gyfer cyflawni, a bydd eu cyflogau'n cael eu hariannu gan y cyflogwr;
 - Bydd prentisiaid yn treulio 51% neu fwy o'u hamser yn gweithio yng Nghymru;
 - Bydd cyflogwyr sydd â diddordeb mewn recriwtio prentis gradd yn cael mynediad at Becyn Cymorth Llywodraeth Cymru i Gyflogwyr, Cymru Sy'n Fwy Cyfartal⁶;
 - Mae cytundeb prentisiaeth⁷ yn ei le;
 - Cynhelir asesiad cychwynnol gyda'r prentis;
 - Bydd profiad a dysgu blaenorol yn cael eu cydnabod lle y bo'n briodol;
 - Bydd gofynion cymorth dysgu ychwanegol prentisiaid yn cael eu hadnabod a'u cefnogi;
 - Cefnogir prentisiaid yn y gweithle gydag o leiaf 20%⁸ o ddysgu yn y gwaith neu chwe awr o hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith yr wythnos ar gyfer unigolyn cyfwerth ag amser llawn (unigolyn sy'n gweithio 30 awr neu fwy) a/neu maent yn cwrdd â'r oriau dan arweiniad tybiannol mewn perthynas â'r credyd a wneir;
 - Bydd prentisiaid yn cael cyfleoedd dysgu seiliedig-ar-waith yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith;
 - Bydd cynnydd prentisiaid yn cael ei adolygu o leiaf bob deufis. Rhaid i adolygiadau gynnwys y sefydliad a gyllidir gan CCAUC, y prentis a'r cyflogwr;
 - Bydd gan brentisiaid fynediad at yr ystod llawn o wasanaethau i fyfyrwyr a gynigir gan y darparwr, a'i undeb myfyrwyr;
 - Bydd data'n cael ei gyflwyno fel sy'n ofynnol gan CCAUC;
 - Gall prentisiaid gael cymwysterau ar lefel sy'n gyfwerth â'r rhai sydd wedi'u cynnwys ar y fframwaith prentisiaethau fel a nodir ar [Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru \(CQFW\)](#), ond nid yn yr un llwybr;
 - Bydd marchnata a chyfathrebu mewn perthynas â phrentisiaethau gradd yn gyson â marchnata a chyfathrebu mewn perthynas â'r rhaglen prentisiaethau gradd gan Lywodraeth Cymru;

⁶ [Busnes Cymru: Canllaw Ymarferol i Gyflogwyr ynglŷn â Chyflogi Pobl Anabl](#)

⁷ [Llywodraeth Cymru: Cytundeb Dysgu Prentisiaeth](#)

⁸ [Datganiad QAA o Nodweddion Addysg Uwch mewn Prentisiaethau](#)

- Bydd mesurau diogelu myfyrwyr a dysgwyr⁹ a nodwyd gan CCAUC ar gyfer sefydliadau rheoleiddiedig yn cael eu cymhwyso yn y ffordd safonol i'r modd y caiff prentisiaid eu trin;
 - Gall prentis adael y cymhwyster gydag achrediad neu ardystiad ar gyfer dysgu a gyflawnwyd. Ni fydd hyn yn gyfystyr â bod wedi cyflawni prentisiaeth lawn yn llwyddiannus.
30. Bydd ymrwymo i'r gofynion hyn yn darparu sicrwydd i CCAUC bod aliniad agos â'r rhaglen prentisiaethau ehangach yng Nghymru a bod y gofynion deddfwriaethol perthnasol yn cael eu hateb. Bydd CCAUC yn disgwyl i sefydliadau a gyllidir gan CCAUC ddogfennu tystiolaeth eu bod yn ateb y gofynion hyn, a cheidw'r hawl i archwilio'r wybodaeth honno.
31. Bydd cynigion yn cael eu hystyried gan **panel** yn erbyn y meini prawf a nodir yn **Atodiad A**. Bydd y panel yn cael ei gadeirio gan aelod o Gyngor CCAUC a bydd yn cynnwys aelodaeth o Lywodraeth Cymru, Diwydiant Cymru a swyddogion CCAUC. Bydd canlyniadau'r broses yn cael eu cyfleu i sefydliadau a gyllidir gan CCAUC o fewn pedair wythnos i gyflwyno eu cynnig. Ceidw CCAUC yr hawl i ofyn am ragor o wybodaeth i ategu'r cynigion.
32. Bydd disgwyliad bod darparwyr prentisiaethau gradd yn cyfranogi yn y canlynol:
- Gweithgareddau marchnata ac ymgyrchoedd cenedlaethol Llywodraeth Cymru;
 - Cystadlaethau sgiliau megis [World Skills](#). Mae'r cystadlaethau hyn yn rhoi profiadau a heriau ychwanegol i brentisiaid a fydd o gymorth iddynt yn eu gyrfaoedd. Hefyd, maent yn rhoi cyfleoedd i ddangos cryfder perfformiad Cymru mewn cystadlaethau cenedlaethol a rhyngwladol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael oddi wrth Claire George, Arweinydd Arloesi Digidol a Hyrwyddwr y Sector TG a Menter (cgeorge@bridgend.ac.uk).

Trefniadau Cyllido

33. Mae'r trefniadau cyllido fel a ganlyn:
- Mae'r cyllidebau dangosol i gyllido prentisiaethau gradd sy'n parhau a phrentisiaethau gradd newydd yn darparu ar gyfer gweithgarwch ar lefelau tebyg i flwyddyn academiaidd 2022/23;
 - Mae'r gyllideb derfynol ar gyfer 2023/24 a 2024/25 yn amodol ar gadarnhad gan Lywodraeth Cymru ynghylch cyllideb CCAUC ar y cyfan, a maes o law ar gyfer y CADY;
 - Bydd y cyllid ar gyfer prentisiaethau gradd ym meysydd Digidol, Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch, ac unrhyw fframweithiau newydd yn 2024/25, pe baent yn cael eu cyflwyno;
 - Yr uchafswm y gellir ei ddyrannu i ateb y gofynion ar gyfer pob prentis yw £27k;
 - Bydd cyllid yn cael ei ddyrannu ar sail nifer y prentisiaethau newydd disgwyliedig sy'n dechrau yn 2023/24 a 2024/25 (a gyflwynwyd gan ddefnyddio'r templed yn **Atodiad B**) ac amcangyfrif o nifer y

⁹ [CCAUC: Tudalen we Myfyrwyr](#)

prentisiaethau sy'n parhau ar gyfer pob blwyddyn academaidd (gan ddefnyddio'r templed yn **Atodiad C**);

- Bydd cyllid ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25 yn cael ei ddyrannu ar sail nifer ddrafft y prentisiaethau newydd rhagamcanol sy'n dechrau yn 2024/25 ac amcangyfrif o'r niferoedd sy'n parhau, gyda niferoedd terfynol yn cael eu cyflwyno'n ddiweddarach eleni;
- Bydd CCAUC yn cyhoeddi templedi ar gyfer yr Adroddiad Monitro yn ei gylchlythyr monitro. Dylai sefydliadau a gyllidir gan CCAUC ddefnyddio'r templedi i adrodd ar nifer wirioneddol y prentisiaethau newydd a'r prentisiaethau sy'n parhau a gafodd eu recriwtio yn ystod pob cyfnod monitro:

2023/24	Cyfnod monitro	Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno	Dyddiad talu disgwylidig
Un:	01/08/2023 - 15/11/2023	12/12/2023	Ionawr 2024
Dau:	16/11/2023 - 31/03/2024	21/04/2024	Mai 2024
Tri:	01/04/2024 - 31/07/2024	20/08/2024	Medi 2024

2024/25	Cyfnod monitro	Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno	Dyddiad talu disgwylidig
Un:	01/08/2024 - 15/11/2025	12/12/2024	Ionawr 2025
Dau:	16/11/2024 - 31/03/2025	21/04/2025	Mai 2025
Tri:	01/04/2025 - 31/07/2025	20/08/2025	Medi 2025

- Bydd taliad yn cael ei wneud ar ôl cael Adroddiadau Monitro boddhaol ar gyfer prentisiaethau newydd a phrentisiaethau sy'n parhau.

Prentisiaethau newydd o 2022/23 ymlaen

- Gwahoddir sefydliadau a gyllidir gan CCAUC i gyflwyno niferoedd disgwylidig y prentisiaethau newydd sy'n dechrau ym blwyddyn academaidd 2023/24, gydag amcangyfrif o brentisiaethau newydd sy'n dechrau yn 2024/25, a chyda niferoedd rhagamcanol mwy pendant ar gyfer prentisiaethau newydd yn 2024/25 yn cael eu cyflwyno'n ddiweddarach eleni (templed yn **Atodiad B**);
- Ni fydd cyllid yn cael ei ddyrannu nes bod cymwysterau'r sefydliad a gyllidir gan CCAUC sy'n cyflwyno'r cynnig wedi cael eu derbyn yn llwyddiannus ar y Fframwaith Prentisiaethau Gradd Digidol (Cymru) a'r Fframwaith Prentisiaethau Gradd Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch (Cymru);
- Bydd cynigion ar gyfer cyllid ar y naill fframwaith a'r llall yn cael eu trin ar wahân, a chyllid yn cael ei gadarnhau pan fydd cymwysterau wedi cael eu derbyn yn llwyddiannus ar y naill fframwaith neu'r llall;
- Bydd cyllido prentisiaid a ddechreuodd o 2022/23 ymlaen yn wahanol i'r dull cyllido a gymhwyswyd i brentisiaid a ddechreuodd rhwng 2018/19 a 2021/22. Yn flaenorol roedd cyllid yn cael ei gyfrifo ar sail cofrestru, tra bydd cyllid ar gyfer y rhai sy'n dechrau o 2022/23 ymlaen yn cael ei gyfrifo yn seiliedig ar y gwerthoedd credyd cysylltiedig y tybir y byddant yn cael

eu cwblhau y mae'r myfyrwyr prentisiaethau'n eu hastudio yn ystod y flwyddyn academaidd. Gwneir hyn er mwyn i'r fethodoleg fod yn gyson â phrif fethodoleg cyllid addysgu CCAUC;

- Bydd cyllid yn cael ei dalu yn erbyn niferoedd a gyflwynwyd mewn Adroddiadau Monitro dros dri chyfnod monitro yn ystod 2023/24 a 2024/25, ar sail nifer y prentisiaethau a gwerthoedd credyd cysylltiedig y tybir y byddant yn cael eu cwblhau sy'n gysylltiedig â modiwlau a astudiwyd yn y flwyddyn honno;
- Mae swm y cyllid am bob gwerth credyd wedi cael ei gyfrifo gan ddefnyddio cyfanswm o £27,000 ar gyfer cwrs nodweddiadol â gwerth credyd o 360, e.e. £75 am bob gwerth credyd. Felly bydd myfyrwr y disgwylir iddo/iddi fod yn astudio 120 o gredydau bob blwyddyn ar gwrs 3 blynedd yn denu cyllid o £9,000 y flwyddyn;
- Ni ellir hawlio cyllid i gydnabod ac achredu dysgu blaenorol a/neu gostau cysylltiedig y broses hon;
- Bydd cyllid yn cael ei gyfrifo'n seiliedig ar nifer y gwerthoedd y tybir y byddant yn cael eu cwblhau a gyflwynwyd trwy'r Adroddiadau Monitro. Fodd bynnag, gellid addasu cyllid tuag i lawr yn seiliedig ar fodiwlau nas cwblhawyd, achosion o dynnu'n ôl neu os yw cyfanswm nifer y credydau ar gyfer y cwrs yn llai na 360 o gredydau o ganlyniad i gydnabod dysgu blaenorol (RPL);
- Bydd addasiadau i'r cyllid yn cael eu cyfrifo ar ddiwedd y flwyddyn academaidd gan ddefnyddio data monitro diwedd blwyddyn HESA ar gyfer 2023/24 a 2024/25, a fydd yn cael ei wirio gan ddarparwyr fel rhan o [broses IRIS HESA](#) a bydd y cyllid yn cael ei adfer ym mis Mai 2025 ac ym mis Mai 2026 yn y drefn honno;
- Bydd cyfarwyddyd pellach ynghylch sut i ddychwelyd data ar werthoedd credyd yn cael ei gynnwys yn y ceisiadau am Adroddiadau Monitro; fodd bynnag bydd yn dilyn canllawiau cyffredinol a chanllawiau echdynnu ar gyfer gwerthoedd credyd a amlinellir yn yr Arolwg Ystadegau Cynnar Myfyrwyr Addysg Uwch ([HESES](#)) fel a gyflwynir i HESA ar hyn o bryd. Trefnir bod y dogfennau cyfarwyddyd diweddaraf ar gyfer HESES a Monitro Diwedd Blwyddyn (EYM) ar gael ar ein [tudalen ystadegau](#);

Prentisiaethau sy'n parhau o 2018/19 – 2021/22

- Gwahoddir sefydliadau a gyllidir gan CCAUC i gyflwyno niferoedd disgwyltiedig y prentisiaid a ddechreuodd ym mlynnyddoedd academaidd 2018/19 – 2021/22 ac sy'n parhau yn 2023/24 (ac yna yn 2024/25 y flwyddyn nesaf), gan ddefnyddio'r templed yn **Atodiad C**. Gwneir hyn er mwyn sicrhau bod niferoedd y prentisiaid yn cael eu cynllunio'n gywir o fewn y cyllid sydd ar gael;
- Bydd cyllid ar gyfer prentisiaethau a ddechreuodd rhwng 2018/19 a 2021/22 ac sy'n parhau yn 2023/24 a 2024/25 yn cael ei ddyrannu'n flynyddol yn ôl cyfran yn unol â hyd y brentisiaeth fel a ddynodwyd gan y sefydliad yn eu cynnig, e.e. bydd £6,750 y flwyddyn yn cael ei ddyrannu ar gyfer prentisiaeth 4 blynedd;

- Bydd cyllid yn cael ei dalu yn erbyn niferoedd prentisiaethau gwirioneddol a gyflwynwyd mewn Adroddiadau Monitro dros y tri chyfnod monitro yn ystod 2023/24 a 2024/25, ar sail nifer a hyd y prentisiaethau;
- Ni ellir hawlio cyllid i gydnabod ac achredu dysgu blaenorol a/neu gostau cysylltiedig y broses hon;
- Gellid addasu cyllid tuag i lawr yn seiliedig ar fodiwlau nas cwblhawyd, achosion o dynnu'n ôl neu os yw cyfanswm nifer y credydau ar gyfer y cwrs yn llai na 360 o gredydau o ganlyniad i gydnabod dysgu blaenorol (RPL);
- Bydd addasiadau i'r cyllid ar gyfer cydnabod dysgu blaenorol neu achosion o dynnu'n ôl gan brentisiaid yn cael eu cyfrifo gan ddefnyddio data monitro diwedd blwyddyn HESA ar gyfer 2023/24 a 2024/25, a fydd yn cael ei wirio gan ddarparwyr fel rhan o [broses IRIS HESA](#) a bydd y cyllid yn cael ei adfer ym mis Mai 2025 ac ym mis Mai 2026 yn y drefn honno.

Sicrhau Ansawdd

34. Mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd wedi cyhoeddi canllawiau ynghylch prentisiaethau, gan gynnwys [Datganiad o Nodweddion Addysg Uwch mewn Prentisiaethau](#) (Mehefin 2022). Disgwylir i'r rhai sy'n dymuno cynnig prentisiaethau gradd ystyried canllawiau'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn eu rhaglenni prentisiaethau gradd.
35. Yn unol â dyletswyddau statudol CCAUC ar gyfer ansawdd, fel arfer mae'n ofynnol i'r holl sefydliadau a gyllidir gan CCAUC gael adolygiad sicrhau ansawdd allanol o'u haddysg uwch o leiaf bob 5 mlynedd (o 2023/24). Cynhelir yr adolygiadau hyn gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, ac maent yn darparu sicrwydd i CCAUC bod gan ddarparwyr sy'n gyfrifol am gyflawni prentisiaethau gradd y systemau a'r prosesau priodol ar waith. Mae'r adolygiad sicrhau ansawdd allanol hefyd yn darparu sicrwydd bod safonau academiaidd y cymwysterau a ddyfernir fel rhan o brentisiaeth radd yn cael eu cynnal yn unol â [Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd ar gyfer Addysg Uwch](#).
36. Ni fydd CCAUC ond yn darparu cyllid i gyflawni prentisiaethau gradd sy'n ateb gofynion fframweithiau prentisiaethau gradd yng Nghymru. Bydd fframweithiau wedi cael eu datblygu gyda chyflogwyr, a bydd cymwysterau a gynhwysir ar y fframweithiau hynny wedi mynd trwy broses i sicrhau eu bod yn ateb gofynion fframwaith prentisiaethau ac anghenion cyflogwyr.
37. Rhoddodd CCAUC gomisiwn i'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd i gynnal adolygiad datblygol o ddarpariaeth prentisiaethau gradd yng Nghymru. Roedd wedi'i fwriadu i ddarparu gwybodaeth am effeithiolrwydd y trefniadau i ddylunio, cyflawni a gwella darpariaeth, ac adnabod arfer da a meysydd i'w datblygu i wella ac ychwanegu at y modd y cyflawnir darpariaeth prentisiaethau gradd, fel y bo'n briodol. Cyhoeddwyd yr [Adroddiad Trosolwg](#) ym mis Hydref 2021, ac mae disgwyl i sefydliadau ystyried canfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad yn adroddiad eu sefydliad unigol ar gyfer cyflawni a datblygu prentisiaethau gradd.

Amserlen

38. Dylai cynigion gael eu cyflwyno erbyn 17 Ebrill 2023 i Angela West (angela.west@hefcw.ac.uk). Gall cynigion sy'n dod i law ar ôl y dyddiad hwn gael eu hystyried, ond gall hyn effeithio ar amseriad cadarnhau'r cynigion ac efallai na fydd digon o arian ar gael i'w ddyrannu ar ôl y broses swyddogol.

Tasg	Dyddiad
Dyddiad cau ar gyfer cynigion	17 Ebrill 2023
Dyddiad dangosol ar gyfer penderfyniad y panel	w/d 8 Mai 2023
Dyrannu'r gyllideb, yn amodol ar dderbyn cymwysterau ar y fframwaith perthnasol	w/d 22 Mai 2023

Rhagor o wybodaeth / ymatebion i

39. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag Angela West (029 2085 9738; angela.west@hefcw.ac.uk).

Asesu effaith ein polisïau

40. Rydym wedi cynnal ymarfer sgrinio i asesu'r effaith er mwyn helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu a hybu cydraddoldeb. Fe wnaethom hefyd ystyried effaith polisïau ar y Gymraeg, a darpariaeth Gymraeg yn y sector AU yng Nghymru ac effeithiau posibl tuag at y nodau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan gynnwys ein Hamcanion Llesiant. Cysylltwch ag equality@hefcw.ac.uk i gael rhagor o wybodaeth am asesiadau o'r effaith.

Prentisiaethau Gradd
Cynigion ar gyfer Cyllid yn 2023/24 a 2024/25

Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno: 17 Ebrill 2023

Blaenoriaethau CCAUC ar gyfer Prentisiaethau Gradd yw:

- Bod sefydliadau a gyllidir gan CCAUC yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol a dogfennau rheoleiddiol perthnasol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru;
- Bod cydweithio strategol yn digwydd ar draws sectorau addysg yng Nghymru i gryfhau llwybrau dilyniant sy'n diwallu anghenion cyflogwyr ac unigolion yn y ffordd orau, ac yn osgoi cystadleuaeth ddiwerth. Rhaid i sefydliadau a gyllidir gan CCAUC gynnwys tystiolaeth o hyn o fewn y cynnig a gyflwynir ganddynt;
- Bod unigolion o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn AU, prentisiaethau a'r galwedigaethau y mae prentisiaethau gradd wedi'u hanelu atynt yn cael eu cynorthwyo i wneud prentisiaethau gradd;
- Bod prentisiaethau gradd yn cyfrannu at strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, [Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr](#).
- Bod prentisiaethau gradd yn cydymffurfio â [Datganiad o Nodweddion ar gyfer Addysg Uwch mewn Prentisiaethau](#) yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA), ac yn parhau i fynd i'r afael ag argymhellion o'r [Adolygiad Datblygiadol o Brentisiaethau Gradd yng Nghymru](#).

Er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau hyn rydym yn gwahodd cynigion i gyllido prentisiaethau gradd. Fel rhan o'r cynigion hyn bydd yn rhaid i sefydliadau a gyllidir gan CCAUC ateb gofynion a chwrdd â disgwyliadau penodol, yn ogystal â dangos sut y byddant yn bodloni meini prawf CCAUC ar gyfer darparwyr prentisiaethau gradd.

Prentisiaethau Gradd:

Mae'r alwad am gynigion yn berthnasol i brentisiaid newydd ar y [Brentisiaeth Radd Ddigidol \(Cymru\)](#) a gyhoeddwyd ar 29 Ebrill 2018, a'r [Brentisiaeth Radd Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch \(Cymru\)](#) a gyhoeddwyd ar 1 Awst 2019, a gyllidir gan Lywodraeth Cymru trwy CCAUC.

Enw'r sefydliad

--

Partner(iaid) cyflawni

Enw(au):

Nodiadau:

Mae angen tystiolaeth i ategu partneriaethau cyflawni newydd y tu allan i'r rhanbarth. Bydd angen cefnogaeth i hyn gan y cyflogwr, ynghyd â thystiolaeth nad oedd y darparwyr yn y rhanbarth yn gallu diwallu anghenion y cyflogwr a'r prentis.

Cynigion lluosog

Adnabod cynigion lluosog ar gyfer yr un ddarpariaeth gyda phartneriaid cydweithredol:

Nodiadau:

Lle mae darparwr/cyflogwr yn rhan o fwy nag un cynnig ar gyfer yr un ddarpariaeth, CCAUC fydd yn pennu'r cynnig y bydd y niferoedd yn cael eu dyrannu iddo.

Cydweithio

Sut mae eich ymagwedd at gydweithio gyda phartneriaid cyflawni'n cael ei rheoli ar sail strategol?

Nodiadau:

Cynhwyswch gyfeiriad at eich cynlluniau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn y dyfodol.

Gwersi a Ddysgwyd

Pa wersi allweddol ydych chi wedi'u dysgu o reoli a chyflawni'r rhaglen prentisiaethau gradd o fewn eich sefydliad?

Sut ydych chi wedi ystyried hyn yn eich cynnig?

Sut ydych chi'n gwerthuso darpariaeth prentisiaethau gradd (pa ddata a ddefnyddir, pa bwyllgorau sy'n craffu ar ddeilliannau), a sut allwch chi ddangos bod gwerthuso wedi arwain at wella'r ddarpariaeth.

Nodiadau:

Ystyriwch flaenoriaethau allweddol CCAUC ar gyfer prentisiaethau gradd o fewn eich ymateb os gwelwch yn dda:

- Cydweithio strategol
- Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- Y Gymraeg
- Sicrhau ansawdd

Fel rhan o'r meini prawf asesu mae'n ofynnol i sefydliadau gynnwys:

- Cyfeiriad at adborth ar gynigion ar gyfer cyllid yn 2022/23, a nodir mewn llythyrau cyllido ar gyfer 2022/23;
- Data a chymau gweithredu a gymerwyd i ategu blaenoriaethau allweddol CCAUC, fel sylfaen dystiolaeth;
- Copi o'ch Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer prentisiaethau gradd.

Llofnodion:

Darparwr a gyllidir gan CCAUC

Enw mewn
llythrennau
breision _____

Llofnod _____

Dyddiad _____

Sefydliad _____

Partner(iaid) cyflawni

Enw mewn
llythrennau
breision _____

Llofnod _____

Dyddiad _____

Sefydliad _____

Enw mewn
llythrennau
breision _____

Llofnod _____

Dyddiad _____

Sefydliad _____

Enw mewn
llythrennau
breision _____

Llofnod _____

Dyddiad _____

Sefydliad _____

Bydd llofnodion electronig yn cael eu derbyn.

Cyflwynwch 'yn gyfrinachol' i:

Enw: Angela West
Ffôn: 029 2085 9738
E-bost: angela.west@hefcw.ac.uk

Templed i gyflwyno cynnig ar gyfer Prentisiaethau Gradd 2022/23

Darperir y nodiadau cyfarwyddyd isod i roi cymorth i gwblhau'r tabl yn Atodiad B

Blwyddyn Academaidd 2023/24 [Ewch i Flwyddyn Academaidd 2023 24](#)

Blwyddyn Academaidd 2024/25 [Ewch i Flwyddyn Academaidd 2024 25](#)

NODIADAU CYFARWYDDYD:

Cyfanswm yr amcangyfrif o niferoedd y prentisiaid newydd

Dim ond prentisiaid newydd sy'n dechrau yn 2023/24 a 2024/25 ddylai'r cynigion eu cynnwys.

Dylai cyfanswm nifer y prentisiaid newydd fod yn seiliedig ar amcangyfrif o brentisiaid newydd sy'n dechrau yn 2023/24 a 2024/25 yn erbyn pob Fframwaith presennol.

Mae cyfanswm yr amcangyfrif o brentisiaid newydd yn ffigwr cyfunol ar gyfer yr holl gymwysterau â phrentisiaid newydd yn dechrau yn 2023/24 a 2024/25, yn erbyn pob Fframwaith presennol.

Bydd cyfanswm yr amcangyfrif o niferoedd y prentisiaid newydd sy'n dechrau yn 2024/25 ar unrhyw Fframweithiau newydd, pe baent yn cael eu cyflwyno, yn ofynnol mewn cynnig llawn y flwyddyn nesaf.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi'i gyflwyno

Do

Naddo

Fframwaith - Y fframweithiau ar gyfer Prentisiaethau Gradd yn y cyfnod rhwng 2018/19 a 2024/25 yw'r Fframweithiau Digidol a Pheirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch presennol.

Llwybr - Y llwybrau ar gyfer y fframwaith Digidol yw:

Gwyddor data

Rheoli seiberddiogelwch

Peirianeg meddalwedd

Llwybr - Y llwybrau ar gyfer y fframwaith Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch yw:

Peirianeg Fecanyddol

Peirianeg Drydanol / Electronig

Gweithgynhyrchu Uwch

Peirianeg Gemegol

Peirianeg Integredig

Gwyddor data

Rheoli seiberddiogelwch

Peirianeg meddalwedd

Peirianeg Fecanyddol

Peirianeg Drydanol / Electronig

Gweithgynhyrchu Uwch

Peirianeg Gemegol

Peirianeg Integredig

Ceir rhagor o wybodaeth am y Fframwaith Prentisiaethau Gradd Digidol yma:

[Fframwaith Prentisiaethau Gradd Digidol](#)

Ceir rhagor o wybodaeth am y Fframwaith Prentisiaethau Gradd Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch yma:

[Fframwaith Prentisiaethau Gradd Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch](#)

Hyd y Cwrs (dim llai na 3 blynedd, a dim mwy na 5 mlynedd)

3 blynedd

4 blynedd

5 mlynedd

Cymhwyster wedi'i gymeradwyo ar y Fframwaith: Dynodwch a yw'r cymhwyster wedi cael ei gymeradwyo'n llwyddiannu ar y Fframwaith perthnasol

Do

Naddo

Templed i gyflwyno cynnig ar gyfer Prentisiaethau Gradd 2022/23**Darperir y nodiadau cyfarwyddyd isod i roi cymorth i gwblhau'r tabl yn Atodiad C**2023/24 [Ewch i Flwydyn Academaidd 2023 24](#)2024/25 [Ewch i Flwyddyn Academaidd 2024 25](#)**NODIADAU CYFARWYDDYD:****Cyfanswm niferoedd y prentisiaid sy'n parhau**

Blwyddyn Academaidd 2023/24: Dylai cynnigion gynnwys nifer ddisgwyliedig y prentisiaid sy'n parhau o 2018/19, 2019/20, 2020/21, 2021/22 a 2022/23, i 2023/24.

Blwyddyn Academaidd 2024/25: Dylai cynnigion gynnwys nifer ddisgwyliedig y prentisiaid sy'n parhau o 2018/19, 2019/20, 2020/21, 2021/22, 2022/23 a 2023/24, i 2024/25.

Bydd cadarnhad o gyfanswm nifer ddisgwyliedig y prentisiaid sy'n parhau o 2018/19, 2019/20, 2020/21, 2021/22, 2022/23 a 2023/24, i 2024/25, yn ofynnol mewn cynnigion y flwyddyn nesaf.

Fframwaith - Y fframweithiau ar gyfer Prentisiaethau Gradd yn y cyfnod rhwng 2018/19 a 2022/23 yw'r Fframweithiau Digidol a Pheirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch presennol.**Llwybr** - Y llwybrau ar gyfer y fframwaith Digidol yw:Gwyddor data
Rheoli seiberddiogelwch
Peirianeg meddalwedd**Llwybr** - Y llwybrau ar gyfer y fframwaith Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch yw:Peirianeg Fecanyddol
Peirianeg Drydanol / Electronig
Gweithgynhyrchu Uwch
Peirianeg Gemegol
Peirianeg Integredig**Llwybr**Gwyddor data
Rheoli seiberddiogelwch
Peirianeg meddalwedd
Peirianeg Fecanyddol
Peirianeg Drydanol / Electronig
Gweithgynhyrchu Uwch
Peirianeg Gemegol
Peirianeg Integredig**Ceir rhagor o wybodaeth am y Fframwaith Prentisiaethau Gradd Digidol yma:**[Fframwaith Prentisiaethau Gradd Digidol](#)**Ceir rhagor o wybodaeth am y Fframwaith Prentisiaethau Gradd Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch yma:**[Fframwaith Prentisiaethau Gradd Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch](#)**Hyd y Cwrs (dim llai na 3 blynedd, a dim mwy na 5 mlynedd)**3 blynedd
4 blynedd
5 mlynedd**Pwynt Mynediad**

2018/19 cyfnod 1 - fe wnaeth y prentis ddechrau'r brentisiaeth rhwng 1 Awst 2018 ac 18 Ionawr 2019
 2018/19 cyfnod 2 - fe wnaeth y prentis ddechrau'r brentisiaeth rhwng 19 Ionawr 2019 a 31 Gorffennaf 2019
 2019/20 cyfnod 1 - fe wnaeth y prentis ddechrau'r brentisiaeth rhwng 1 Awst 2019 ac 15 Tachwedd 2019
 2019/20 cyfnod 2 - fe wnaeth y prentis ddechrau'r brentisiaeth rhwng 16 Tachwedd 2019 a 31 Mawrth 2020
 2019/20 cyfnod 3 - fe wnaeth y prentis ddechrau'r brentisiaeth rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Gorffennaf 2020
 2020/21 cyfnod 1 - fe wnaeth y prentis ddechrau'r brentisiaeth rhwng 1 Awst 2020 ac 15 Tachwedd 2020
 2020/21 cyfnod 2 - fe wnaeth y prentis ddechrau'r brentisiaeth rhwng 16 Tachwedd 2020 a 31 Mawrth 2021
 2020/21 cyfnod 3 - fe wnaeth y prentis ddechrau'r brentisiaeth rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Gorffennaf 2021
 2021/22 cyfnod 1 - fe wnaeth y prentis ddechrau'r brentisiaeth rhwng 1 Awst 2021 ac 15 Tachwedd 2021
 2021/22 cyfnod 2 - fe wnaeth y prentis ddechrau'r brentisiaeth rhwng 16 Tachwedd 2021 a 31 Mawrth 2022
 2021/22 cyfnod 3 - fe wnaeth y prentis ddechrau'r brentisiaeth rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Gorffennaf 2022
 2022/23 cyfnod 1 - fe wnaeth y prentis ddechrau'r brentisiaeth rhwng 1 Awst 2022 ac 15 Tachwedd 2022
 2022/23 cyfnod 2 - fe wnaeth y prentis ddechrau'r brentisiaeth rhwng 16 Tachwedd 2022 a 31 Mawrth 2023
 2022/23 cyfnod 3 - fe wnaeth y prentis ddechrau'r brentisiaeth rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Gorffennaf 2023
 2023/24 cyfnod 1 - disgwyli'r bydd y prentis wedi dechrau'r brentisiaeth rhwng 1 Awst 2023 ac 15 Tachwedd 2023
 2023/24 cyfnod 2 - disgwyli'r bydd y prentis wedi dechrau'r brentisiaeth rhwng 16 Tachwedd 2023 a 31 Mawrth 2024
 2023/24 cyfnod 3 - disgwyli'r bydd y prentis wedi dechrau'r brentisiaeth rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Gorffennaf 2024
 2024/25 cyfnod 1 - disgwyli'r bydd y prentis wedi dechrau'r brentisiaeth rhwng 1 Awst 2024 ac 15 Tachwedd 2024
 2024/25 cyfnod 2 - disgwyli'r bydd y prentis wedi dechrau'r brentisiaeth rhwng 16 Tachwedd 2024 a 31 Mawrth 2025
 2024/25 cyfnod 3 - disgwyli'r bydd y prentis wedi dechrau'r brentisiaeth rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Gorffennaf 2026

Niferoedd y prentisiaid:

Blwyddyn Academaidd 2023/24: Nifer ddisgwyliedig y prentisiaid sy'n parhau o 2018/19, 2019/20, 2020/21, 2021/22 a 2022/23, i 2023/24.

Blwyddyn Academaidd 2024/25: Nifer ddisgwyliedig y prentisiaid sy'n parhau o 2018/19, 2019/20, 2020/21, 2021/22, 2022/23 a 2023/24, i 2024/25.